**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

James Warr
Cadeirydd Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid Cymru

11 Gorffennaf 2024

**Ymchwiliad i Blant a Phobl Ifanc sydd ar yr Ymylon**

Annwyl James,

Fel y gwyddoch efallai, rydym wrthi yn casglu tystiolaeth fel rhan o'n hymchwiliad i blant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon. Mae'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar blant sydd ar goll a phlant a phobl ifanc sydd wedi'u troseddoli. Ceir rhagor o fanylion am ein hymchwiliad, gan gynnwys ei gylch gorchwyl, ar ein tudalennau gwe.

Daeth y cyfnod ymgynghori ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwiliad hwn i ben ar 23 Ionawr 2024. Rydym bellach wrthi'n casglu tystiolaeth anffurfiol gan randdeiliaid drwy gyfres o ddigwyddiadau rhanddeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu. Fodd bynnag, oherwydd pwysau ar ein blaenraglen waith, rydym wedi penderfynu ceisio tystiolaeth ysgrifenedig wedi'i thargedu gan randdeiliaid allweddol yn hytrach na chynnal sesiynau tystiolaeth lafar ffurfiol. Yna byddwn yn cynnal sesiwn graffu ar y cyd ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar 19 Medi 2024.

Rydym felly yn ceisio eich barn ar unrhyw agwedd ar yr ymchwiliad i gryfhau ein tystiolaeth ysgrifenedig. Yn ogystal ag unrhyw sylwadau cyffredinol yr hoffech eu gwneud sy'n berthnasol i gylch gorchwyl yr ymchwiliad, byddem yn gwerthfawrogi eich barn ar y pwyntiau penodol a ganlyn:

- A allech chi amlinellu pa rôl sydd gan dimau troseddau ieuenctid o ran delio â phlant a phobl ifanc sy'n dioddef camfanteisio troseddol neu sy'n wynebu risg o gamfanteisio troseddol, ac o ran eu helpu, gan gynnwys manylion am y canlynol:
    - **Atal**: Rhaglenni atal penodol yr ydych yn eu rhoi ar waith
    - **Strategaethau ymyrraeth**: Sut ydych chi'n ymyrryd pan nodir risg y bydd plentyn neu berson ifanc yn dioddef camfanteisio troseddol, yn benodol pa


wasanaethau cymorth yr ydych chi'n eu darparu a sut ydych chi'n cydweithio ag asiantaethau eraill (fel gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion ac ati)?

    - **Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth**: Pa hyfforddiant y mae aelodau eich tîm yn ei gael i nodi ac ymateb i arwyddion o gamfanteisio troseddol, a sut ydych chi'n codi ymwybyddiaeth o'r mater hwn ymysg plant, pobl ifanc a'u teuluoedd?

- Pa ganllawiau neu adnoddau penodol sy'n cael eu rhoi i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid i gefnogi eich gwaith wrth ddelio â phlant sy'n dioddef camfanteisio troseddol neu sy'n wynebu risg o gamfanteisio troseddol, gan gynnwys cymorth gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Llywodraeth Cymru, a Byrddau Diogelu?

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Gwener 23 Awst 2024 fan bellaf fel y gallwn ystyried eich barn cyn ein sesiwn graffu gyda Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,



Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.